

## Manylebau

Cydnawsedd	Tunstall / TeleAlarm
Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	H120 x L165 x D80 mm (heb erialau). Eirialau - H185 x L112 x D37 mm (yn onglog)
Pŵer	Soced Safonol 13A
Pellter Gweithio	Hyd at 1 cilomedr
Batri Wrth-gefn	12 awr
Batri Isel Awto	Profi batri bob dydd ag bob trosglwyddiad
Catogeri Derbyn Radio	Sianel 1: Dobarth 1 Sianel 2: Dobarth 2
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

## Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

## Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Defnyddiwch o dan do mewn lleoliad sych yn unig.

## Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.



Cair (UK) Ltd.

Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD

T: 01422 399 155 E: sales@we-cair.com W: www.we-cair.com



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

## Orion

Estynnwr Pellter Gweithio

Canllaw  
Rhaglennu v1.1



Peidiwch byth â gadael i rybudd fynd heb ei ganfod eto gydag yr hwb 'Orion'.

Mae'r estynnydd pellter gweithio 'Orion' yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i roi hwb i signal synwryddion Teleofal, a thrwy hynny gynyddu eu pellter gweithio yn sylweddol. Mae'r 'Orion' yn helpu i sicrhau bod rhybuddion achub bywyd hanfodol yn cael eu canfod.

## Defnydd a Fwriadwyd

Mae'r Orion yn gweithio drwy estynnu pellter gweithio eich dyfeisiau Teleofal. Mae'r estynnydd yn ailadrodd pob trosglwyddiad Teleofal hyd at ystod o 1 cilomedr (llinell y golwg), gan sicrhau bod rhybuddion pwysig yn llai tebygol o gael eu colli.

Mae'r uned yn cael ei phweru drwy soced plwg prif gyflenwad. Mae ganddo hefyd batri, felly bydd yn dal i allu trosglwyddo os bydd toriad mewn pŵer. Pan fydd wedi'i wefru'n llawn, dylai'r batri ddarparu pŵer hyd at 12 awr, yn dibynnu ar ei ddefnydd.


Bwriedir i'r uned gael ei gosod gan berson cymwys a'i phlygio i mewn i soced prif gyflenwad yn arddull y DU.

**Nodyn: Mae'r canllaw hwn am feddalwedd newydd Orion yn unig - o rif serial 2010 ag ymhellach (2010=20 (blwyddyn), 10(mis))**

## Sefydlu

Er mwyn gweithredu orau, dylai'r ddau antena fod â pholareiddio gwahanol (wedi'i osod ar 90 gradd fel y dangosir ar y ddelwedd ar y dudalen flaen).

Yn ddefnyddiol, mi ddylai'r Orion cael ei osod mewn soced sydd ddim yn cael eu defnyddio, ac mewn lleoliad disylw.



## Troi Ymlaen

I droi ymlaen, plygiwch yr Orion i mewn i brif soced, ag mi fydd yn dod ymlaen yn awtomatig. Fedrwcw chi hefyd droi ymlaen wrth bwysu lawr ar y switsh (gweler uchod) gyda diwedd clip bapur neu offeryn addas arall am tua 10 eiliad nes bod yr LEDs yn goleuo.

Wrth droi ymlaen, mi fydd yr LEDs yn fflachio 4 gwaith, wedi ei dilyn yn syth efo'r LEDs glas yn fflachio, sydd yn nodi'r modd (e.e. un fflach am fodd 1, dwy fflach am fodd 2 a.y.b., ag y LED felyn yn fflachio i dangos y rhif ailadroddod. Ella fydd yna swyn, yn dibynnu ar opsiwn 5 neu 6, mae bod modd wedi ei esbonio ym mhellach ar y dudalen nesaf. Mi fydd yr LEDs gwyrdd wedyn yn fflachio yn araf, i ddangos fod yr estynnydd nawr yn barod eu defnyddio.

## Troi i Ffwrdd

I ddiffodd y Orion, gwasgwch y switsh gyda diwedd clip papur neu offeryn addas a'i ddal am oddeutu 5 eiliad nes bod bob LED yn diffodd. Nodyn - ni fydd yr Orion yn diffodd os fod yna digwyddiad ar y ddyfais ar y pryd.

## Ymddygiad Cyffredinol

Pam fydd yr Orion ddim yn cael eu defnyddio, yr unig ddangosyddion fydd yr LEDs gwyrdd sydd yn fflachio yn araf. Weithiau maent yn fflachio ar yr un adeg, weithiau ddim, mae hyn yn hollol arferol.

Os mae'r Orion yn gweithio ar bŵer batri, mi fydd yr LEDs gwyrdd yn fflachio yn gyflym.

## Ymddygiad Gweithio

Pam mae'r Orion yn derbyn signal gan synhwyrdd, mi fydd yr LEDs melyn ar sianel 1 a 2 yn goleuo am amser byr, wedyn fydd y LED(s) glas yn goleuo am amser byr mewn cyfnod sydd wedi amseri, neith newid dibynnu ar y rhif ailadroddod (opsiwn 7, 8 a 9 ar y dudalen nesaf). Mi fydd LEDs sianel 1 a sianel 2 yn goleuo yn fodd 1 a 3, a sianel 1 yn unig yn fodd 2 a 4.

Os mae opsiwn 5 wedi ei ddewis, fydd yr Orion yn ddistaw pan fydd y LED(s) glas yn goleuo.

Os mae opsiwn 6 wedi ei ddewis, fydd yr Orion yn gwneud sŵn pan fydd yr LED(s) glas wedi ei oleuo.

## Ailadrodd

Yn ei gyflwr arferol, bydd y Orion yn ailadrodd signal sy'n dod i mewn dwywaith (sianel 2 ar ôl dau eiliad a sianel 1 ar ôl pedwar eiliad). Os mae opsiwn 8 wedi ei ddewis, mi fydd yr amseroedd yn newid i bump a deg eiliad.

Os mae opsiwn 9 wedi ei ddewis, mi fydd yr amseroedd yn newid o wyth i un ar bymtheg eiliad.

Mae ailadrodd ddwywaith yn uchafu pellter gweithio'r Orion gan fod y signal yn cael eu trosglwyddo o'r ddau erial, ag gan ei fod ar onglau sgwâr o'i gilydd, mae'r signal efo mwy o gyfle i weithio ym mhellach.

Mi ellir newid hyn i ddim ond ailadrodd unwaith wrth newid y rhif modd i 2 neu 4.

Mi ellir hefyd defnyddio'r rhifau modd i gynyddu'r ID o 1 fel bod y ddyfais derbyn yn anwybyddu'r signal o'r sensor ag dim ond yn ymateb i'r signal Orion. Mae hynna yn ddefnyddiol pan fydd Orion yn cael eu defnyddio gyda Lifeline, neu os bod mwy na un Orion yn cael eu defnyddio mewn un safle.

## Rhaglennu'r Rhifau Modd/Opsiwn

Mae'r moddau ag opsiynau wedi ei rhestru yn yr adran nesaf. Defnyddiwch y modd canlynol i newid yr osodiadau:

1. Wrth ddefnyddio pen clip bapur neu offeryn addas, pwyswch a dal i lawr y switsh am ddwy eiliad wedyn ei ollwng.
2. Mi fydd y LED felyn yn goleuo, ac mi fydd yr Orion yn mynd i fodd rhaglennu am 10 eiliad. Yn ystod yr amser yma, tapiwch ar y switsh yr un nifer o weithiau a'r rhif modd/opsiwn rydych eisiau dewis, e.e. unwaith am fodd 1, dwywaith am fodd 2 a.y.b. Mi fydd y LED glas yn fflachio bob tro mae'r switsh yn cael eu pwysu.
3. Ar ôl i chi darfod tapio ar y switsh, mi fydd yr Orion yn aildddechrau unwaith fod yr amser rhaglennu 10 eiliad wedi darfod. Mae'r proses aildddechrau'r un peth a'r proses rhoi'r Orion ymlaen, fel disgrifir yn y dudalen flaenorol, yn yr adran 'Troi Ymlaen'. Nodyn - ni fydd yr Orion yn ailgychwyn os mae o wedi rhaglennu i'r modd yna yn barod.
4. Pan mae'r Orion yn dod ymlaen, mi fydd yr LEDs glas yn fflachio i gadarnhau rhif y modd, wedi dilyn efo LEDs melyn i gadarnhau'r rhif ailadroddod. Mi fydd yna swyn hefyd os ei fod wedi galluogi.

## Rhifau Modd/Opsiynau

Mae'r Orion efo pedwar modd, dau opsiwn sain a tri opsiwn ailadroddod. Mae'r modd arferol (gosodiad ffatri) yn addas i ran fwyaf o osodiadau efo Buzzz, ond os yr ydych yn defnyddio'r Orion efo Lifeline, ddylai modd 3 neu 4 cael eu defnyddio. Mi ellir troi'r sŵn i ffwrdd os bydd angen. Mi ddylai opsiwn ailadroddod 1 cael eu defnyddio mewn rhan fwyaf o sefyllfaoedd.

Mae modd 3 a 4 yn foddau 'cynydrannol'. Mae'r moddau yma yn derbyn yr ID o'r synhwyrdd, ag yn ychwanegu un digid i'r ID ac wedyn yn trosglwyddo'r ID newydd, e.e. mi fysa ID 283472 yn newid i 283473. Mae hynna yn lleihau'r nifer o signalau mae'r Buzzz/Lifeline yn derbyn ag yn helpu os bod mwy na un Orion yn cael eu defnyddio mewn un safle. Pan mae'r moddau yma yn cael eu defnyddio, sicrhewch fod y signal ailadroddod wedi ei rhaglennu i'r Buzzz/Lifeline, ac nid y signal yn uniongyrchol o'r synhwyrdd.

1. Modd 1 (Gosodiad ffatri). Yn ailadrodd dwywaith (yn ddefnyddiol efo'r Buzzz yn unig).
2. Modd 2. Yn ailadrodd unwaith (yn ddefnyddiol efo'r Buzzz yn unig).
3. Modd 3. Yn ailadrodd dwywaith - Cynydrannol (Ellir eu defnyddio efo'r Buzzz neu Lifeline Tunstall).
4. Modd 4. Yn ailadrodd unwaith - Cynydrannol (Ellir eu defnyddio efo'r Buzzz neu Lifeline Tunstall).
5. Sŵn i ffwrdd.
6. Sŵn ymlaen (Gosodiad ffatri).
7. Ailadroddod 1 (Gosodiad ffatri). Yn ailadrodd dwywaith yn foddau 1 a 3 - ar ôl 2 eiliad a 4 eiliad. Yn ailadrodd unwaith yn foddau 2 a 4 - ar ôl 2 eiliad.
8. Ailadroddod 2. Yn ailadrodd dwywaith yn foddau 1 a 3 - ar ôl 5 eiliad a 10 eiliad. Yn ailadrodd unwaith yn fodd 2 a 4 - ar ôl 5 eiliad (edrychwch ar 'Defnyddio mwy na un Orion' isod).
9. Ailadroddod 3. Yn ailadrodd dwywaith yn fodd 1 a 3 - ar ôl 8 eiliad a 16 eiliad. Yn ailadrodd unwaith yn foddau 2 a 4 - ar ôl 8 eiliad (edrychwch ar 'Defnyddio mwy na un Orion' isod).

## Defnyddio mwy na un Orion

Os fod angen mwy dau Orion mewn un safle, mi ddylai un cael ei osod i Ailadroddod 1 ag y llall i Ailadroddod 2. Os bod angen trydydd Orion, mi ddylai cael eu gosod i Ailadroddod 3. Mi ddylai bob Orion cael eu rhaglennu i Fodd 4, i leihau'r nifer o signalau.

## Rhybudd Colli Pŵer

10 eiliad ar ôl i bŵer cael eu colli, mi fydd yr Orion yn gwneud sŵn ag gyrru signal radio. Mi ellir rhaglennu'r signal i Buzzz neu Lifeline Tunstall, i hysbysu gofalywyr neu ganolfan fonitro fod yr Orion wedi colli pŵer. Mae'r math yma o signal i Lifeline yn 'Zoning Trigger', mae'n hawdd newid i fath arall yn defnyddio meddalwedd PC Connect.